**SWYDDOGOL**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **24 Chwefror 2026** |
| **Amser:** | **1.30pm–3.30pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries<br>• Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Nicola Davies |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff, Ditectif Arolygydd Samantha Gregory (SG)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn wir ac yn fanwl gywir.

## 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| PB 111 | Yr heddlu i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r SCHTh ynghylch y gweithdy a drefnwyd gyda sefydliadau manwerthu. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae'r cyfarfod ynghylch troseddau manwerthu a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2026 wedi'i ganslo/gohirio tan ddyddiad diweddarach. |
| PB 112 | Yr heddlu i ystyried a ellid lleihau neu ddargyfeirio cyllid ymgyrch Valiant i rywle arall yn y dyfodol. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Darparwyd memo gan yr heddlu |
| PB 113 | Yr heddlu i ddarparu diweddariad ynghylch amseroldeb gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Diweddariad wedi'i ddarparu o fewn eitem 5d ar yr agenda |
| PB 114 | Yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyflwyno'r | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | cynllun peilot Copilot o fewn yr heddlu. | Darparwyd memo gan yr heddlu |
| PB 115 | Yr heddlu i ddarparu diweddariad ynghylch mynediad at sianel Teams ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae dau aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi gwirfoddoli i dreialu'r system ac fe osodwyd mynediad ymwelydd i Microsoft Teams ar eu dyfeisiau ar 4 Chwefror 2026. Cafodd un aelod rai problemau wrth geisio cael mynediad i sianel Microsoft Teams ar ei gyfrifiadur personol, ond mae'r broblem hon wedi cael ei datrys. Bydd SCHTh yn defnyddio adroddiadau agenda flaenorol i brofi'r system, a'r bwriad yw i gwblhau'r profion erbyn 6 Mawrth 2026. Yna bydd y ddau wirfoddolwr yn profi'r system ar gyfer y cyfarfod ffurfiol ar 31 Mawrth 2026 ac os bydd yn llwyddiannus bydd hyn yn cael ei gyflwyno i weddill aelodau'r pwyllgor. |
| PB 116 | Yr heddlu i ystyried a ellir defnyddio'r tanwariant cyllidebol presennol ar gyfer cyllid refeniw uniongyrchol yn ystod y flwyddyn. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Wedi'i adlewyrchu yn y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2026/7 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Rhaglen Cadetiaid

Yn dilyn cwestiwn a ofynnwyd i'r CHTh mewn cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr, cafodd y bwrdd adroddiad ar y Rhaglen Cadetiaid gan yr Uwch-arolygydd dros Atal.

Darparodd yr adroddiad asesiad o Raglen Cadetiaid Heddlu Dyfed-Powys, wedi'i seilio ar dystiolaeth, gan gynnwys ei gwerth strategol, ei buddion gweithredol a chymunedol, ei chostau/risgiau, a'i heffaith ar bobl ifanc a'r heddlu. Bwriad yr adroddiad oedd cynorthwyo prif swyddogion i adolygu gwerth cyffredinol y cynllun a'i gyfeiriad yn y dyfodol.

Cytunodd y bwrdd i'r CHTh rannu'r adroddiad ag aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu.

**Camau gweithredu: -SCHTh i rannu Adroddiad y Rhaglen Cadetiaid â'r Panel Heddlu a Throseddu.**

### b) Strategaeth Ymgysylltu â'r Bartneriaeth Plismona Lleol

Cyflwynodd y Prif Gwnstabl y Strategaeth Ymgysylltu â'r Bartneriaeth Plismona Lleol wedi'i diweddaru ar gyfer 2026-2029 i'r bwrdd. Diben y strategaeth yw nodi sut y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cryfhau ac yn cydlynu ymgysylltiad partneriaethau lleol i wella diogelwch cymunedol, atal niwed, amddiffyn pobl agored i niwed, gan ymgorffori ymyrraeth gynnar, atal, a datrys problemau ar y cyd fel gweithgareddau partneriaeth craidd.

Mae'n egluro arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer ymgysylltu â phartneriaethau o lefel yr uned reoli sylfaenol hyd at gyflawniad plismona bro rheng flaen – gan sicrhau perchnogaeth leol, cyflawniad lleol, ac atebolrwydd lleol.

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â Chynllun Ymgysylltu Cymunedol Timau Plismona ac Atal Bro a'r Strategaeth Atal (2024-28), sydd gyda'i gilydd yn darparu'r fframwaith manwl ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, gwelededd, meithrin cymunedau cydlynus, datrys problemau lleol, ac atal, a rhaid cyfeirio atynt fel y dogfennau cyflawni gweithredol ar gyfer ymgysylltu â chymdogaethau lleol. Croesawodd y CHTh y strategaeth a'i haliniad â strategaeth y timau plismona ac atal bro, gan nodi pwysigrwydd eglurder a pherchnogaeth leol.

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

**a) A all y Prif Gwnstabl ddarparu gwybodaeth ynghylch pa gamau a gymerir yn dilyn arestio unigolyn am yrru dan ddylanwad cyffuriau? Faint o'r arestiadau ddatgelodd brofion positif a beth sy'n digwydd nesaf? Dealltwriaeth SCHTh yw y dylid ei atgyfeirio i'n gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ond mae**

**adroddiadau gwasanaethau i'r SCHTh yn dangos ychydig iawn o weithgarwch atgyfeirio o'r llwybr hwn.**

Nododd y Prif Gwnstabl fod y protocol ar gyfer arestio unigolyn am yrru dan ddylanwad cyffuriau yr un fath ag arestio unigolyn am yrru dan ddylanwad alcohol, sef arestio os ceir canlyniad positif i brawf sweipio cyffuriau ar ochr y ffordd.

Caiff yr unigolyn ei arestio a'i gludo i'r ddalfa lle bydd y weithdrefn gyrru dan ddylanwad cyffuriau yn cael ei chynnal. Fel arfer, byddai hyn yn arwain at ryddhau'r unigolyn ar fechnïaeth/yn destun ymchwiliad er mwyn cyflwyno sampl ar gyfer archwiliad fforensig.

Os yw'r canlyniadau yn dangos bod yr unigolyn wedi mynd dros y terfyn, yna bydd yr unigolyn yn cael ei wysio neu ei orchymyn i ymddangos gerbron llys.

Mae'r atgyfeiriad i wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gwestiwn a ofynnir gan ringyll y ddalfa i'r unigolyn tra ei fod yn y ddalfa. Os yw unigolyn wedi profi'n bositif am ganabis, cynigir atgyfeiriad iddo, ond ei ddewis ef yw a yw yn ei dderbyn ai peidio. Mae'n atgyfeiriad gwirfoddol oni bai bod yr unigolyn wedi profi'n bositif am gocên dosbarth A.

Os yw'n gyffur dosbarth A, yna byddai'n bodloni'r meini prawf ar gyfer prawf cyffuriau wrth arestio. Mae hon yn weithdrefn y ddalfa a gyflawnir gan Swyddogion y Ddalfa a Thywys. Os yw'r weithdrefn prawf cyffuriau wrth arestio wedi'i chwblhau ac yn dod yn ôl yn bositif, yna byddai'r atgyfeiriad yn orfodol.

**Camau gweithredu: - Yr heddlu i drafod â'r Prif Arolygydd ar gyfer Gwasanaethau'r Ddalfa pa gynllun cyfathrebu y gallai'r heddlu ei roi ar waith yn y ddalfa i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan wasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer arestio unigolion am yrru dan ddylanwad cyffuriau.**

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Darparwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd yn manylu ar ddigwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith plismona da gan gynnwys y digwyddiad ym Mharc Caerfyrddin, y weithdrefn cloi mewn argyfwng yn Ysgol Gyfun Aberdaugleddau a'r wybodaeth ddiweddaraf am sioeau teithiol y Prif Swyddog a gwblhawyd ar draws y sefydliad.

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ynghylch ei weithgareddau a'i gyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona, gan gynnwys diwrnod

ymgysylltu â'r gymuned yn Sir Benfro, cyfarfod ford gron ynghylch datganoli cyfiawnder ieuenctid a phresenoldeb ym Mhanel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.

### c) Diweddariad cyllid

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ddiweddariad ariannol byr ac adroddiad i aelodau'r Bwrdd ar 19 Chwefror. Mae'r adroddiad yn crynhoi sefyllfa ddiweddaraf yr alldro a ddisgwylir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol – 2025/26 – yn seiliedig ar wariant hyd at 31 Ionawr 2026. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr heddlu £1.9 miliwn o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Ddechrau mis Ionawr 2026, adroddodd yr heddlu am ragamcan o £1.2 miliwn o fewn y gyllideb.

Mae'r cynnydd o £0.7 miliwn yn y tanwariant o fis Rhagfyr i fis Ionawr yn ymwneud yn bennaf â gwrthdroi gor-groniad ar gyfer taliadau sancsiwn cynllun (£0.2 miliwn) ac â rhyddhau darpariaethau cyfreithiol, oherwydd gorddarpariaeth yng nghyfrifon 2024/25 a chynnwys yr holl rwymedigaethau, ac nid dim ond y rhwymedigaethau tebygol, fel balans agoriadol darpariaeth (£0.5 miliwn).

Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2025–2026 yn rhagdybio codiad cyflog o 2.8% o fis Medi ar gyfer swyddogion a staff. Mae'r Bwrdd Negodi Cyflogau wedi cytuno ar ddyfarniad cyflog o 4.2% i swyddogion a staff o 1 Medi 2025. Mae £120 miliwn wedi'i ddarparu'n genedlaethol i'r heddluoedd i gwmpasu rhywfaint o'r bwlch o 1.4% yn y dyfarniad cyflog.  Cyfran Heddlu Dyfed-Powys yw £0.8 miliwn - cafwyd y lefel hon o gyllid ychwanegol erbyn diwedd mis Ionawr 2026.

Mae sefyllfa'r gyllideb yn parhau i fod yn newidiol ac mae llawer iawn o ansicrwydd ynghlwm wrth sawl newidyn a rhagamcan, er enghraifft mewn perthynas ag ymddeoliadau ar sail afiechyd, croniadau, incwm, grantiau, cydweithio, a phenderfyniadau ariannu cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn.

Nodwyd bod taliadau goramser swyddogion yr heddlu £0.4 miliwn yn uwch na’r gyllideb.  Mae'r gorwariant yn ymwneud yn bennaf â gweithgarwch gweithredol/gofynion cenedlaethol. Mae cyllid wedi'i gynnwys yn yr incwm cydgymorth.  Mae'r cynnydd yn y dyfarniad cyflog yn ystod y flwyddyn hefyd yn cyfrannu at gostau goramser uwch.  Mae monitro goramser yn parhau i fod yn ffocws, fel rhan o grŵp adolygu goramser misol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol pan fo risgiau gweithredol ac ariannol yn cael eu cydbwyso yn erbyn y sefyllfa gyllidebol gyffredinol.

Rhagwelir y bydd costau cyflogau staff yr heddlu yn sylweddol is na'r gyllideb (£1.3 miliwn yn is), er gwaethaf y ffaith bod y dyfarniad cyflog yn sylweddol uwch na'r gyfradd a gyllidebwyd. Mae llithriant o ran recriwtio a’r niferoedd sy’n gadael swyddi wedi aros yn uchel drwy gydol y flwyddyn.  Mae hyn yn bennaf oherwydd oedi wrth recriwtio a swyddi gwag fel sgil-effaith sy'n deillio o ddyblu grant Gwarant Plismona Bro ddiwedd mis Ionawr 2025 ochr yn ochr â chymysgedd y gweithlu a gynlluniwyd a'r prosiectau atal, ymyrryd, ac ymgysylltu.

Cyfrifwyd rhagamcan y bydd tanwariant o £0.7 miliwn ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â thâl. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag arbedion yn ystod y flwyddyn ar gyfer costau ynni a chyfleustodau, arbedion mewn perthynas â phrosiectau TGCh oherwydd amseriadau (y system rheoli cysylltiadau), ac addasiad credyd sy'n ofynnol i ffioedd cyfreithiol o £0.5 miliwn, o ganlyniad i newid yn y ffordd y caiff rhwymedigaethau cyfreithiol posibl eu trin o gael eu hystyried yn ddarpariaethau (y gellir eu codi fel costau yn ystod y flwyddyn) i gael eu hystyried yn rhwymedigaethau digwyddiadol (yr adroddir amdanynt yn y naratif yn unig).

I grynhoi ar gyfer 2025/26, mae'r sefyllfa gyllidebol yn parhau i fod o fewn y gyllideb ar hyn o bryd, a disgwylir i gymorth y dyfarniad cyflog gwmpasu'r gorwariant o ran goramser. Mae llithriant sylweddol yn erbyn recriwtio staff yr heddlu wedi parhau i fod yn her drwy gydol y flwyddyn ariannol sydd wedi effeithio ar y gallu i gyflawni prosiectau a rhagamcanion cost er gwaethaf y ffaith bod ffactor swyddi gwag staff wedi cynyddu i 5%. Mae rhagdybiaethau o ran llithriant ar gyfer 2026/7 wedi cynyddu ymhellach o 5% i 6.4%.

Mae'r newid mewn trefniadau cyfrifyddu mewn perthynas â'r ddarpariaeth gyfreithiol a gor-groniad taliadau lwfans blynyddol hanesyddol (pensiynau) hefyd wedi gwneud cyfraniad untro sylweddol at y sefyllfa gadarnhaol a ragwelir.

Nododd y CHTh yr adroddiad a safbwynt y sefydliad. Cafwyd trafodaeth ynghylch heriau recriwtio a chyfleoedd i wella'r sefyllfa yn y dyfodol.

### d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o’r effaith ar ddiogelu data

Darparwyd papur diweddaru i’r bwrdd gan y Rheolwr Gwybodaeth ynghylch y broses asesiad o’r effaith ar ddiogelu data.

Mae'r Cynghorydd Diogelu Data yn cynnal trafodaethau â'r Adran TGCh â'r bwriad o ddiwygio'r cwestiwn a osodwyd o fewn y broses awtomataidd i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion prosesau llywodraethu gwybodaeth, deddfwriaeth diogelu data, cyfrifoldebau cyfreithiol y rheolydd data a phrosesau eraill sy'n deillio o'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data. Mae angen gwaith pellach cyn y gellir datblygu'r system TGCh ymhellach. Mae hyn yn cynnwys adolygu’r set o gwestiynau i gyd-fynd â gofynion maes busnes rheoli gwybodaeth a gofynion Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025. Mae hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o’r holl asesiadau o’r effaith ar ddiogelu data sy’n weddill i sicrhau mai dim ond gwaith ‘byw’ sy’n cael ei drosglwyddo i’r system newydd. Mae’r Cynghorydd Diogelu Data wedi cynnal adolygiad trylwyr o holl ffeiliau 2024–2025, a bydd yr adolygiad o’r ffeiliau hŷn yn parhau.

Mae gwaith mewn perthynas â datblygu system electronig i gwmpasu'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn parhau i fod heb ei wneud, mae hyn oherwydd llwyth gwaith a gofynion sy’n cystadlu â’i gilydd.

Mae cyfarfodydd blaenoriaethu’r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data y Dirprwy Brif Gwnstabl yn parhau i gael eu cynnal, ac mae’r Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Rheolwr Caffael, a'r Rheolwr Gwybodaeth yn mynychu. Mae'r cyfarfod yn caniatáu i'r Tîm Diogelu Data ymroi i'r asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data, a dogfennau contract deddfwriaethol eraill, yn seiliedig ar ofynion blaenoriaeth y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, SCHTh, a Chaffael. Mae wedi darparu rhestr o flaenoriaethau i'r tîm sy'n cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod. Mae wedi cynorthwyo i ddangos ble mae'r oedi yn y broses, ac mae llawer o'r oedi hynny yn ymwneud ag adrannau. Mae hyn wedi caniatáu i faterion gael eu huwchgyfeirio i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol sydd wedyn yn codi materion gyda Phennaeth yr Is-adran/Pwynt Cyswllt Unigol yr Adran perthnasol. Mae cais am adnodd dros dro ychwanegol i gynorthwyo'r maes gwaith hwn wedi'i gyflwyno.

Darparwyd diweddariad ynghylch rhagolwg llwyth achosion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gan gynnwys nifer y gwiriadau DBS sydd heb eu cyflawni erbyn y dyddiad cau.

Mae'r rhagolygon ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yn gyfartal â'r rhagolygon ar gyfer 2025-26 ar gyfer y ceisiadau Datgelu. Mae cynnydd yn y rhagolygon ar gyfer y ceisiadau Gwahardd ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y DBS yn cymeradwyo hanner swydd ychwanegol ar gyfer Gwahardd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r swyddi ychwanegol a ariennir gan y DBS yn adlewyrchu eu hymrwymiad i gefnogi'r uned i wella yn dilyn absenoldebau salwch hirdymor (un ohonynt yn dal i fynd rhagddynt), swyddi gwag, a secondiad o'r Uned dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi i recriwtio dau swyddog datgelu dros dro (contract 12 mis). Mae'r broses recriwtio yn parhau i lenwi swydd swyddog datgelu 0.5, a ddaeth yn wag yn dilyn recriwtio goruchwyliwr DBS. Mae'r DBS hefyd wedi cytuno ar y cyllid i gynnig cyfle i gael secondiad (chwe i naw mis) o fewn yr adran, ac mae'r broses recriwtio ar gyfer hyn newydd ddechrau.

Mae un aelod o dîm y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar hyn o bryd yn ymgymryd â swydd goruchwylio dros dro (tri diwrnod yr wythnos) o fewn y Tîm Rheoli Cofnodion. Mae unigolyn wedi parhau i fod yn absenol oherwydd salwch hirdymor o fewn tîm y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae nifer o staff y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a staff o feysydd eraill yn yr adran yn parhau i weithio goramser.

Mae uned y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gweithio'n agos iawn gyda Rheolwr Perfformiad yr heddlu yn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gynorthwyo adferiad, rhywbeth y mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cydnabod ac yn deall na fydd yn dechrau nes bod staff ychwanegol cymeradwy yn ymgymryd â’u swyddi. Yn y cyfamser, mae staff yn uned y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn parhau i weithio goramser, ac mae staff eraill o fewn yr heddlu hefyd yn cynorthwyo gyda goramser, a ariennir yn llwyr gan y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i atal llif y ceisiadau rhag mynd uwchlaw targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth ymhellach.

## e) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Darparodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol, Adolygiad yr Heddlu bapur diweddaru i'r bwrdd ar fodel gweithredu'r heddlu.

Mae tri gwerthusiad yn cael eu gyrru yn eu blaen ar hyn o bryd o fewn yr heddlu.

- Model goruchwylio gogledd/de Powys - Cyflwynwyd yr argymhellion o werthusiad cynllun peilot Model goruchwylio gogledd/de Powys i randdeiliaid allweddol ar 28 Ionawr 2026. Bydd y rhain nawr yn cael eu trosglwyddo i gomander newydd uned reoli sylfaenol ar gyfer Powys i'w hystyried ar ôl penodi. Bydd ei argymhellion yn dychwelyd at uwch noddwyr i wneud penderfyniad.
- Gwerthusiad chwe mis interim - Rota gwasanaeth ymateb yr heddlu a'r ddalfa - Diben y gwerthusiad interim hwn yw deall unrhyw fanteision/anfanteision y newid hwn er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r ffrwd gwaith Rhifau Gweithredu Dymunol. Disgwylir y bydd y gwerthusiad hwn wedi'i gwblhau erbyn canol mis Mawrth 2026.
- Strwythur plismona gweithredol uwch - y gwerthusiad 12 mis ar ôl gweithredu newid y strwythur plismona gweithredol uwch. Er bod gwireddu'r rhan fwyaf o'r buddion yn gysylltiedig â chanlyniadau arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu HMICFRS, mae'r gwerthuswr wedi cynnal sawl grŵp ffocws gydag arweinwyr Iwnifform a'r Adran Ymchwilio i Droseddau i ddeall beth sy'n 'gweithio'n dda, beth sydd ddim, a sut y gall weithio'n well'.  Disgwylir y bydd y gwerthusiad hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Y gwerthusiad nesaf a gynlluniwyd yw gwerthusiad o'r Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig – cyflawnwyd y gwaith o ehangu cylch gwaith yr uned, y tu hwnt i raglen beilot gychwynnol Sir Gaerfyrddin, i'w weithredu ledled ardal yr heddlu yn llawn ym mis Hydref 2024. Yn 2025, comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal adolygiad academaidd ac adolygiad sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr o'r swyddogaeth. Disgwylir i'r diweddariad yn ymwneud â 'chanfyddiadau interim hanner ffordd trwy'r adolygiad' gael ei ddychwelyd i'r heddlu yn fuan, a disgwylir yr adolygiad llawn erbyn mis Hydref 2026. Bydd yr 'adolygiad hanner ffordd' yn sail i werthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar yr heddlu gyda'r cylch gorchwyl wedi'i gyfarwyddo gan uwch-noddwyr. Bydd yr adolygiad hwn yn dechrau ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o'r strwythur plismona gweithredol uwch.

Yn dilyn proses datganiad o ddiddordeb lwyddiannus, mae'r ffrwd waith ar y trywydd iawn i ryddhau pedwar rhingyll a 29 cwnstabl i'r timau plismona ac atal bro erbyn 31 Mawrth 2026 i gyflawni cynnydd y Gwarant Plismona Bro 2025/26.

Mae'r gwaith yn parhau nawr i gyflawni'r broses o recriwtio’r staff heddlu ychwanegol sydd eu hangen sy'n gysylltiedig â chymysgedd y gweithlu ar gyfer 2025/26.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyfleu eu disgwyliad y bydd dyraniad Gwarant Plismona Bro i'r heddlu ar gyfer 2026/27 yn cael ei ddefnyddio i gynyddu 12 o swyddogion heddlu yn y timau plismona ac atal bro (cyfrif pen). Cafodd y rhain eu hystyried ymlaen llaw yn y Cynlluniau Gweithlu a Chyllid Strategol ar gyfer 2026/27, ac o ganlyniad, mae 11 o'r 12 swyddog heddlu ychwanegol yn ymuno â'r sefydliad yn fuan drwy lwybr mynediad Tîm Plismona Bro Police Now.

## 6. Unrhyw fater arall

### a) Cronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw

Rhoddodd CHTh ddiweddariad i'r bwrdd yn dilyn y gweithdy rhannu data Cymru gyfan a gynhaliwyd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys ym mis Tachwedd. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys uwch-berchnogion risg gwybodaeth, swyddogion diogelu data o'r pedwar heddlu, ac arbenigwyr pwnc yn ogystal â chynrychiolwyr o fanc data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe. Hwyluswyd y gweithdy gan yr Athro Stan Gilmour o Oxon Advisory, a argymhellwyd gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Blismona.

Pwrpas y gweithdy oedd trafod pryderon swyddogion diogelu data ynghylch y prosiect, a gasglwyd a darparwyd y rhain i SAIL ym mis Gorffennaf 2025 ar gais y Prif Gwnstabl. Cynhyrchodd SAIL ymateb cynhwysfawr a ddarparwyd i swyddogion diogelu data i'w ystyried cyn y gweithdy.

Amcan y prosiect yw ychwanegu data’r heddlu i’r gronfa ddata SAIL, gan ganiatáu cysylltu data â setiau data yn ymwneud ag iechyd, addysg, awdurdodau lleol a setiau data eraill i gynhyrchu mewnwelediadau ar lefel y boblogaeth trwy brosiectau ymchwil penodol.

Cytunwyd ar y camau nesaf yn y gweithdy, gan gynnwys sefydlu gweithgor a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu'r prosiect. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys swyddogion diogelu data, arbenigwyr pwnc (gan gynnwys dadansoddwyr yr heddlu) a chynrychiolwyr o SAIL.

Cytunwyd i ddarparu pwrpas clir ar gyfer rhannu data i gefnogi gofynion diogelu data y bydd data yn cael eu rhannu at y diben o ‘atal trais difrifol’. Bydd y pedwar heddlu yn cytuno ar ddiffiniad o drais difrifol, yn seiliedig ar gategorïau troseddau’r Swyddfa Gartref, drwy’r gweithgor.

Cytunwyd y byddai'r data'n cael eu hystyried fel data dan ffugenw, yn hytrach na data di-enw, oherwydd y broses sy'n ofynnol i hwyluso cysylltu data effeithiol.

Mae catalog o benawdau Niche yn cael ei baratoi i roi trosolwg o'r data a fydd yn cael eu hychwanegu gyda SAIL. Bwriad hyn yw cynorthwyo prosiectau ymchwil posibl.

Mae SAIL wedi darparu contract prosesu data templed a chytundeb teirochrog, sydd wedi'u dosbarthu i'r swyddogion diogelu data i'w hadolygu.

Bydd prosesau sicrhau diogelwch gwybodaeth a fetio yn cael eu cadarnhau gan y gweithgor, a bydd trefniadau llywodraethu yn cael eu cwblhau.

Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y gweithgor, a drefnwyd ar gyfer diwedd mis Chwefror.

### b) Etholiadau'r Senedd 2026

Gofynnodd y Prif Weithredwr a fyddai'r heddlu yn cyhoeddi unrhyw ganllawiau i staff ynghylch etholiad y Senedd sydd ar ddod.

Dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai'n gofyn i'r adran Cyfathrebu Corfforaethol o fewn yr heddlu ymgymryd â'r dasg.

**Camau gweithredu: - Yr Heddlu i ddosbarthu canllawiau i staff ynghylch etholiad y Senedd sydd ar ddod.**

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 24 Chwefror 2026 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| PB 117 | SCHTh i rannu Adroddiad y Rhaglen Cadetiaid â'r Panel Heddlu a Throseddu. | SCHTh |
| PB 118 | Yr heddlu i drafod â'r Prif Arolygydd ar gyfer Gwasanaethau'r Ddalfa pa gynllun cyfathrebu y gallai'r heddlu ei roi ar waith yn y ddalfa i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan wasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer arestio unigolion am yrru dan ddylanwad cyffuriau. | Heddlu |
| PB 119 | Yr Heddlu i ddosbarthu canllawiau i staff ynghylch etholiad y Senedd sydd ar ddod. | Heddlu |

DIWEDD